

IS-BWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MERCHER, 9 HYDREF 2019

Yn Cynghorydd Mackie(Cadeirydd)
bressenol: Cynghorwyr Jacobsen a/ac Derbyshire

1 : EITHRIO'R CYHOEDD

Mae'r eitem ganlynol yn gyfrinachol ac wedi'i heithrio rhag cael ei chyhoeddi gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig o'r disgrifiad a geir ym mharagraff 14 o Ran 4 a pharagraff 21 o Ran 5 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gall y cyhoedd cael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ar yr eitemau hyn.

PENDERFYNWYD – gwahardd y cyhoedd.

2 : MATERION CERBYDAU HACNI/CERBYDAU LLOGI PREIFAT

PENDERFYNWYD - Y dylid trin y materion canlynol fel y nodir:

(1) Cais 1

Clywodd yr Is-bwyllgor sylwadau gan yrrwr oedd wedi bod yn rhan o ddadl ag aelod o'r cyhoedd. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod yr anghydfod wedi digwydd gan fod y gyrrwr wedi parcio mewn man llwytho wrth aros am gwsmer. Nododd y gyrrwr ei fod wedi ysgrifennu at yr achwynydd yn ymddiheuro'n ysgrifenedig. Ni aeth y tyst i'r cyfarfod. Nododd y gyrrwr yr hyn oedd e'n ei gofio o'r diwrnod.

PENDERFYNWYD - Na ddylid cymryd unrhyw gamau gweithredu pellach.

(2) Cais 2

Wedi'i ohirio am 1 mis

(3) Cais 3

Clywodd yr Is-bwyllgor sylwadau gan yrrwr oedd wedi dod o hyd i ffôn symudol yng nghefn ei gerbyd. Eglurodd y cwsmer bod dau gwsmer wedi dod o hyd i'r ffôn. Hysbysebodd y cwsmer benywaidd y ffôn ar y cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys rhif cofrestru cerbyd y gyrrwr. Dywedodd y gyrrwr fod y ffôn wedi mynd ar goll ar nos Sul. Rhoddodd y ffôn mewn lle diogel. Nid oedd yn gweithio ar ddydd Sul na'r Dydd Llun Gŵyl y Banc canlynol. Ar y dydd Mawrth, daeth dyn at ei gerbyd gan ddweud mai ef oedd perchennog y ffôn. Roedd yn gallu disgrifio gwneuthuriad ac edrychiad y ffôn. Dywedodd y gyrrwr ei fod wedi rhoi'r ffôn i'r person.

Gofynnodd yr Aelodau i'r gyrrwr pam nad oedd wedi rhoi'r ffôn i'r Heddlu yn unol ag amodau'r drwydded. Nododd y gyrrwr ei fod wedi bwriadu mynd i

Orsaf Heddlu Bae Caerdydd y diwrnod hwnnw. Cadarnhaodd ei fod yn ymwybodol y dylai unrhyw eiddo coll fynd i Orsaf Heddlu.

PENDERFYNWYD - Gofyn i'r gyrrwr i gwblhau cymhwyster BTEC mewn Cludo Teithwyr o fewn 3 mis.

(4) Cais 4

Wedi'i ohirio am 1 mis

(5) Cais 5

Derbyniodd yr Is-bwyllgor sylwadau gan yrrwr a oedd wedi derbyn 6 phwynt cosb am drosedd yrru. Nododd y gyrrwr ei fod yn gyrru ei gerbyd personol ac yn defnyddio ei ffôn i chwarae cerddoriaeth. Roedd y ffôn yn ddiogel ar y bwrdd gwaith. Nid oedd y gyrrwr yn gwybod fod angen iddo ddatgelu'r collfarn ar yr adeg, ond roedd wedi datgelu wrth adnewyddu ei drwydded.

PENDERFYNWYD - Bod y gyrrwr yn derbyn rhybudd ar lafar am dderbyn a pheidio â datgelu trosedd yrru.

(6) Cais 6

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried achos gyrrwr oedd wedi derbyn rhybudd am anfon negeseuon maleisus. Mae'r gyrrwr hefyd wedi derbyn 3 phwynt cosb am drosedd yrru. Eglurodd y gyrrwr amgylchiadau'r collfarnau. Derbyniwyd y rhybudd o ganlyniad i negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol. Roedd y negeseuon yn ymwneud ag anghydfod teuluol. Cyflawnwyd y drosedd pan roedd y gyrrwr yn gyrru ei gerbyd mewn capasiti preifat.

PENDERFYNWYD - Bod y gyrrwr yn derbyn rhybudd ysgrifenedig am dderbyn a pheidio â datgelu trosedd yrru ac am dderbyn rhybudd am anfon negeseuon maleisus.

(7) Cais 7

Wedi'i ohirio am 1 mis

(8) Cais 8

Wedi'i ohirio am 1 mis

(9) Cais 9

Ni fynychodd y gyrrwr y gwrandawriad.

PENDERFYNWYD - Y dylid tynnu'n ôl y Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni / Cerbyd Llogi Preifat gan nad oedd y gyrrwr wedi cyflwyno tystysgrif GDG.

(10) Cais 10

Wedi'i ohirio am 1 mis

(11) Cais 11

Roedd gyrrwr wedi derbyn pwyntiau cosb am ddwy drosedd goryrru. Nododd y gyrrwr ei fod yn rhedeg cwmni chauffeur preifat ac yn teithio rhwng 50,000 a 70,000 milltir y flwyddyn. Digwyddodd y ddwy drosedd pan oedd yn mynd â chleientiaid i'w lleoliadau. Cafodd yr aelodau wybod bod y troseddau wedi digwydd oherwydd diffyg canolbwyntio. Nid oedd y gyrrwr yn cefnogi goryrru ac ymddiheurodd. Roedd ei fusnes yn arbenigo mewn gyrru pobl chwaraeon a phobl busnes, ac ni fyddai'r busnes yn llwyddiannus pe byddai'n ymddwyn yn anystyriol. Datgelwyd y troseddau pan ddaeth i adnewyddu ei drwyddedau gan nad oedd yn gwybod bod angen iddo ddatgelu troseddau ar yr adeg.

PENDERFYNWYD - Bod y gyrrwr yn derbyn rhybudd ar lafar am ddwy drosedd gyrru ac am beidio â datgelu'r troseddau ar adeg y collfarnau.

(12) Cais 12

PENDERFYNWYD - Cymeradwyo cais am Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni neu Gerbyd Llogi Preifat.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.30 pm